Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Atwrneiaeth Arhosol

Canllaw i bobl hŷn yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru** mewn partneriaeth â **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Atwrneiaeth Arhosol - Canllaw hawdd i bobl hŷn**'.

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 30**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

Cynnwys

Tudalen

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.....4

Beth ydy Atwrneiaeth Arhosol.....6

Pwy sydd yn gallu bod yn dwrnai.....11

Y ddau fath o Atwrneiaeth Arhosol.....16

Pryd mae fy nhwrnai yn gallu defnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol.....18

Ydy rhywun yn gallu gwneud Atwrneiaeth Arhosol imi.....19

Oes angen imi gael cyfreithiwr.....20

Faint mae'n ei gostio i wneud Atwrneiaeth Arhosol.....21

Sut mae gwneud cais am Atwrneiaeth Arhosol.....27

Beth sy'n digwydd ar ôl i chi gyflwyno eich cais.....28

Mwy o wybodaeth.....29

Geiriau anodd.....30

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @talkolderpeople

Beth ydy Atwrneiaeth Arhosol

Dogfen gyfreithiol ydy **Atwrneiaeth Arhosol** Mae hefyd yn cael ei alw yn **LPA**.

Mae'n caniatáu i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo wneud penderfyniadau ar eich cyfer pan fyddwch chi:

- heb y **galluedd meddyliol** i benderfynu eich hun neu

Mae cael **galluedd meddyliol** yn meddwl bod rhywun yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.

- rydych chi eisiau i rywun wneud rhai penderfyniadau ar eich cyfer.

Mae'n rhaid bod gennych chi **alluedd meddyliol** i wneud **Atwrneiaeth Arhosol**.

Mae rhywun yn gallu bod yn brin o **alluedd oherwydd**

- anabledd neu salwch
- dementia
- problem iechyd meddwl.

Efallai na fyddan nhw'n gallu deall gwybodaeth am benderfyniad. Neu efallai na fyddan nhw'n gallu dweud beth ydy eu penderfyniad.

Fe fydd gwneud **Atwrneiaeth Arhosol** yn eich helpu chi i baratoi rhag ofn i hyn ddigwydd. Os nad oes gennych chi **Atwrneiaeth Arhosol** yna dydy'r bobl rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw ddim yn gallu gwneud penderfyniadau i chi bob amser.

Mae dau fath o LPAs. Maen nhw'n cynnwys:

1. **Eiddo a chyllid**. Dyma unrhyw beth rydych chi'n berchen arno a'ch arian.

2. **Iechyd a llesiant**. Dyma sut mae pobl yn gofalu amdanoch chi pan fyddwch chi'n sâl. Y ffordd rydych chi'n byw eich bywyd a'r gofal a'r cymorth rydych chi'n ei gael.

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng Atwrneiaeth Barhaus (EPA) ac Atwrneiaeth Arhosol?

Fe wnaeth LPAs gymryd lle **Atwrneiaeth Barhaus (EPA)** yn 2007.

Mae **Atwrneiaeth Barhaus** yn caniatáu i rywun weithredu drosoch chi mewn mater cyfreithiol neu fusnes.

Os oes gennych chi **Atwrneiaeth Barhaus** ac nad ydych eisiau ei newid, does dim angen i chi wneud cais am **Atwrneiaeth Arhosol**.

Os ydych chi eisiau newid **Atwrneiaeth Barhaus** presennol fe fydd angen i chi wneud cais am **Atwrneiaeth Arhosol**.

Am Atwrneiaeth Arhosol

Fe fyddech chi yn gwneud y **Atwrneiaeth Arhosol** ac yn dewis mwy nag un twrnai.

Twrnai ydy'r person rydych chi eisiau i wneud penderfyniadau ar eich rhan.

Pwy sydd yn gallu bod yn dwrnai

Rydych chi'n gallu dewis unrhyw un rydych chi eisiau i fod yn dwrnai i chi. Maen nhw'n gallu bod yn:

- perthynas fel eich mab, merch, nith neu nai
- ffrind
- cyfreithiwr
- eich gŵr, gwraig, neu bartner.

Rhaid iddyn nhw fod yn oedolyn a bod ganddyn nhw'r **galluedd meddyliol** i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Does dim angen iddyn nhw fod yn byw yn y DU na bod yn ddinesydd Prydeinig.

Fe ddylech chi eu hadnabod yn dda ac ymddiried ynddyn nhw i wneud penderfyniadau ar eich rhan.

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr eu bod yn cytuno i fod yn dwrnai i chi ac yn deall beth fydd yn rhaid iddyn nhw ei wneud.

Ydw i'n gallu cael mwy nag un twrnai?

Ydych. Os ydych chi'n dewis mwy nag un twrnai, rhaid i chi benderfynu sut y byddan nhw'n gwneud penderfyniadau. Y dewisiadau ydy:

Gyda'i gilydd – Mae'n rhaid i'ch twrneiod gytuno ar bob penderfyniad. Mae hyn yn cael ei alw ar y cyd.

Ar wahân i– mae eich twrneiod yn gallu gwneud penderfyniadau ar eu pennau eu hunain.

Ar wahân neu gyda'i gilydd – mae eich twrneiod yn gallu gwneud penderfyniadau ar eu pennau eu hunain neu gyda thwrnai arall.

Neu rydych chi'n gallu cael cymysgedd o'r dewisiadau yma.

Twrnai newydd

Rydych chi'n gallu dewis gwahanol dwrneiod newydd. Fe fyddan nhw yn cymryd lle eich prif dwrneiod os nad ydyn nhw yn gallu gwneud penderfyniadau ar eich cyfer ddim mwy.

Fe fydd **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** yn canslo eich **Atwrneiaeth Arhosol**. Os:

- nid oes gennych **alluedd** a
- dydy eich twrneiod ddim yn gallu gweithredu i chi ddim mwy a
- does dim twrneiod newydd.

Darparydd Tystysgrif

Pan fyddwch chi'n creu **Atwrneiaeth Arhosol** mae angen dewis rhywun fel **darparydd tystysgrif** hefyd. Rhaid iddyn nhw eich adnabod chi yn dda. Dydyn nhw ddim yn gallu bod yn aelod o'r teulu.

Dyma rywun fydd yn edrych i weld:

- Rydych chi'n deall beth rydych chi'n ei wneud a beth mae'r **Atwrneiaeth Arhosol** yn ei feddwl.
- Does neb yn eich gorfodi i wneud **Atwrneiaeth Arhosol**
- Does dim unrhyw reswm pam nad ydych chi'n gallu gwneud **Atwrneiaeth Arhosol**.

Pobl i'w hysbysu

Rydych chi hefyd yn gallu enwi **pobl i'w hysbysu**. Fe fyddan nhw'n cael gwybod pan fyddwch chi'n cofrestru'r **Atwrneiaeth Arhosol**. Maen nhw'n gallu codi unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw am yr **Atwrneiaeth Arhosol**.

Y ddau fath o Atwrneiaeth Arhosol

1. LPA Eiddo a chyllid

Mae eich twrnai yn gallu gwneud penderfyniadau ar bethau fel:

- Rheoli eich cyfrif banc.

- Talu eich biliau.

- Casglu eich budd-daliadau neu bensiwn.

- Gwerthu eich cartref.

Rydych chi'n gallu defnyddio'r math yma o **Atwrneiaeth Arhosol** hyd yn oed os ydych chi'n gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun. Ar ôl i chi gofrestru, mae'n gallu cael ei ddefnyddio gyda'ch caniatâd.

2. LPA Iechyd a Llesiant

Mae eich twrnai yn gallu gwneud penderfyniadau ar bethau fel:

- Eich trefn ddyddiol, er enghraifft ymolchi, gwisgo, bwyta.

- Y meddyginiaethau sydd gennych.

- Eich symud i gartref gofal.

- Triniaeth i'ch cadw chi'n fyw.

Mae'r **Atwrneiaeth Arhosol** yma **dim ond** yn digwydd pan nad oes gennych chi **alluedd** i wneud penderfyniadau drosoch eich hun.

Beth sy'n bwysig i chi?

Rydych chi'n gallu penderfynu pa bethau mae eich twrnai yn gallu gwneud penderfyniadau amdanyn nhw.

Pryd mae fy nhwrnai yn gallu defnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol

Dim ond unwaith y bydd wedi'i gofrestru y mae'r twrnai yn gallu defnyddio'r **Atwrneiaeth Arhosol**.

Mae hyn yn meddwl:

- mae pawb wedi arwyddo'r **LPA**

- rydych chi wedi anfon i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a

- maen nhw wedi cysylltu â chi i ddweud eu bod yn ei dderbyn.

Mae'n syniad da cofrestru'r **Awrneiaeth Arhosol** cyn gynted ag y byddwch wedi ei wneud.

Ydy rhywun yn gallu gwneud Atwrneiaeth Arhosol imi

Nac ydy Os nad oes gennych chi **alluedd meddyliol** dydych chi ddim yn gallu gwneud **Atwrneiaeth Arhosol** a does neb yn gallu gwneud un i chi.

Yr unig ffordd mae rhywun yn gallu gwneud penderfyniadau i chi ydy os ydyn nhw'n gwneud cais i'r **Llys Gwarchod**.

Mae hyn yn cymryd mwy o amser ac yn costio mwy na chael **LPA**.

Oes angen imi gael cyfreithiwr

Does dim angen unrhyw help cyfreithiol ar lawer o bobl i lenwi'r ffurflen gais **Atwrneiaeth Arhosol**.

Darllenwch y ffurflenni a'r canllaw i ddechrau yn gyntaf i benderfynu ydych chi neu'ch twrnai yn gallu eu llenwi a gwneud cais i gofrestru'r **Atwrneiaeth Arhosol**.

Mae **Atwrneiaeth Arhosol** yn ddogfen gyfreithiol bwysig, felly efallai y byddwch chi eisiau cael cyngor cyfreithiol. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i chi dalu amdano.

Faint mae'n ei gostio i wneud Atwrneiaeth Arhosol

Y ffi llawn ar gyfer Atwrneiaeth Arhosol ydy £82.

Mae'r swm rydych chi'n ei dalu yn dibynnu ar eich incwm.

I dalu ffi llai neu ddim ffi mae'n rhaid i chi:

- Llenwi ffurflen **LPA120A** a llofnodi'r datganiad.



- Casglu prawf o'ch incwm.

- Anfon ffurflen **LPA120A** a'ch prawf ynghyd â'ch ffurflenni **Atwrneiaeth Arhosol** pan fyddwch chi yn gwneud cais i gofrestru.

Ffi llai

Os ydy cyfanswm eich incwm blynyddol cyn treth yn llai na £12,000, mae'n bosib y byddwch yn gallu talu hanner y ffi, felly dim ond £41.

Fe fydd angen i chi anfon prawf o'ch incwm blynyddol gros. Mae hyn yn gallu bod yn:

- P60 neu slipiau cyflog am dri mis o'ch swydd bresennol.

- Llythyr neu hysbysiad gan y talwr am fudd-daliadau a phensiynau.

- Datganiadau neu dalebau sy'n dangos incwm gros ar gyfer llog o gyfalaf, stociau, cyfranddaliadau neu fondiau.

Os ydych chi'n hunangyflogedig fe fydd angen i chi anfon:

- eich ffurflen dreth ddiweddaraf a chyfrifiad treth CThEM, neu

- cyfrif wedi'i ardystio gan gyfrifydd cymwys.

Os ydych chi yn derbyn Credyd Cynhwysol, mae angen i chi anfon copïau o lythyrau sy'n dangos eich bod wedi cael Credyd Cynhwysol.

Fydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ddim yn derbyn datganiadau banc fel prawf o incwm.

Os nad ydych chi yn derbyn unrhyw incwm, rhaid i chi anfon datganiad wedi'i lofnodi yn egluro sut rydych chi'n cynnal eich hun.

Dim ffi

Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu ffi o gwbl os ydych chi'n cael unrhyw un o'r budd-daliadau yma:

- Gwarant Elfen Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Cymorth Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Budd-dal Tai
- Lwfans Tai Lleol
- Gostyngiadau/Cymorth Treth Gyngor
- Credyd Treth Gwaith ac o leiaf un o: Credyd Treth Plant, Elfen Anabledd Credyd Treth Gwaith, Elfen Anabledd Difrifol Credyd Treth Gwaith

Fe fydd rhaid i chi anfon copïau o lythyrau gan eich darparwr budd-daliadau yn dangos eich bod yn derbyn y budd-daliadau hyn ar yr adeg rydych chi wedi gwneud gais i gofrestru.

Rhaid i lythyrau gadarnhau bod y budd-daliadau yn cael eu talu i chi. Rhaid i'r llythyrau gynnwys eich enw llawn, eich cyfeiriad a'ch cod post.

Fe fydd rhaid i chi dalu'r ffi llawn os ydych chi yn :

- Derbyn y budd-daliadau yma:
  - Lwfans Byw i'r Anabl
  - Budd-dal anabledd
  - Taliad Annibyniaeth Personol.

- Wedi cael iawndal anafiadau personol o dros £16,000.

Sut i dalu ffioedd

Rydych chi'n gallu talu drwy:

Taliad ar-lein gyda cherdyn credyd neu ddebyd.

Ar y ffôn gyda cherdyn credyd neu ddebyd. Gofynnwch am hyn yn eich ffurflen gais a bydd rhywun yn cysylltu â chi.

Taliad siec. Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus'. Ysgrifennwch eich enw llawn ar gefn y siec.

Sut mae gwneud cais am Atwrneiaeth Arhosol

Rydych chi, eich twrnai, neu gyfreithiwr yn gallu gwneud cais ar-lein: www.lastingpowerofattorney.service.gov.uk/home

Os nad ydych chi eisiau gwneud cais ar-lein, rydych chi'n gallu lenwi ffurflenni papur a'u hanfon drwy'r post.

Mae **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** yn gallu anfon y ffurflenni **Atwrneiaeth Arhosol** atoch chi:

Rhif ffôn: 0300456 0300

Neu drwy'r post: Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Blwch Post 16185
Birmingham
B2 2WH

Beth sy'n digwydd ar ôl i chi gyflwyno eich cais

Mae'n cymryd tua **20 wythnos** i **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** gofrestru **Atwrneiaeth Arhosol os** nad oes camgymeriadau yn y cais.

Fe fydd **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** yn cadarnhau cofrestru gyda chi drwy'r post neu drwy e-bost.

Fe fydd **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** yn cysylltu â'ch twrnai i roi gwybod iddyn nhw bod yr **Atwrneiaeth Arhosol** wedi'i gofrestru.

Fe ddylech chi gadw copi o'r **Atwrneiaeth Arhosol** cofrestredig.

Mwy o wybodaeth

I ddarganfod mwy am wneud cais am Atwrneiaeth Arhosol

Post: **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**
Blwch Post 16185
Birmingham
B2 2WH

Ffôn: 0300 456 0300

Gwefan: www.gov.uk/opg

E-bost: customerservices@publicguardian.gov.uk

Fformatau hygyrch

Os ydych chi eisiau'r ddogfen yma mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg.

Geiriau anodd

Galluedd meddyliol

Mae galluedd meddyliol yn meddwl bod rhywun yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.